Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i ddiffyg yn O.S. 2024/1251 (Cy. 209) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 384 (Cy. 76)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) (Diwygio) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân gywiriadau i Reoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/1251 (Cy. 209)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 384 (Cy. 76)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Mawrth 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *26 Mawrth 2025* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mawrth 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 9(1), 10(5) a 18A(3) o Reoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid(**1**).

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**).

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion

(**1**) EUR 2003/1831, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/654, 2022/377 a 1351. Diwygiwyd O.S. 2019/654 gan O.S. 2020/1504. Mae'r termau "prescribe" ac "appropriate authority" wedi eu diffinio yn Erthygl 2 o EUR 2003/1831.

(**2**) EUR 2002/178, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/641. Diwygiwyd O.S. 2019/641 gan O.S. 2020/1504.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) (Diwygio) 2025, a deuant i rym ar 31 Mawrth 2025.

**Diwygio Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) a Defnyddiau Bwyd Anifeiliaid a Fwriedir at Ddibenion Maethol Penodol (Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354) (Cymru) 2024(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y testun Saesneg, yn lle "Regulation 767/2009" rhodder "Regulation (EC) No 767/2009".

(3) Yn rheoliad 4(1), yn y testun Cymraeg, yn lle "a Rheoliadau diwygio" rhodder "ac sy'n diwygio Rheoliadau".

(4) Yn rheoliad 13(4), yn y testun Cymraeg, ar ôl "sy'n gymwys" mewnosoder "yn union".

(5) Yn rheoliad 14(3), yn y testun Cymraeg, ar ôl "sy'n gymwys" mewnosoder "yn union".

(6) Yn rheoliad 16(3), yn y testun Cymraeg, ar ôl "sy'n gymwys" mewnosoder "yn union".

(7) Yn Atodlen 8, yn y testun Cymraeg, yn y tabl, yn y rhes ar gyfer "Darpariaethau eraill", yn yr ail golofn, ym mhwynt 4, yn y pwynt bwled cyntaf, o flaen "essential trace elements" mewnosoder "of".

(8) Yn Atodlen 11, yn y testun Cymraeg, yn y geiriau o flaen y tabl, yn lle "technegol" rhodder "technolegol".

(9) Yn Atodlen 13, yn y testun Cymraeg, yn y tabl, yn y rhes ar gyfer "Darpariaethau eraill", yn yr ail golofn, ym mhwynt 2, yn lle "Gellir" rhodder "Caniateir".

(10) Yn Atodlen 16, yn y testun Cymraeg, yn y tabl, yn y rhes ar gyfer "Nodweddiad y sylwedd(au) actif", yn yr ail golofn, yn lle "elfennau" rhodder "cydrannau".

*Sarah Murphy*
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
24 Mawrth 2025

(**1**) O.S. 2024/1251 (Cy. 209).